

Rhif: WG42763



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Agor Llwybrau

Y cyfnod dysgu sy'n arwain at gam cynnydd 1

Dyddiad cyhoeddi: 21 Mai 2021
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 16 Gorffennaf 2021

Agor Llwybrau

Trosolwg

Cyhoeddwyd Fframwaith Cwricwlwm i Gymru ar 28 Ionawr 2020. Cyn ei gyhoeddi, roedd y Fframwaith yn destun ymgynghoriad eang a helaeth. Roedd yr adborth a gafwyd yn dangos pa ganllawiau penodol, ychwanegol y byddai eu hangen ar ysgolion a lleoliadau er mwyn cynllunio a gwireddu eu cwricwlwm eu hunain yn llwyddiannus. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gyhoeddi:

- canllawiau ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg
- canllawiau ar gyfer addysg cydberthynas a rhywioldeb
- canllawiau ar gyfer gyrfaeodd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith
- canllawiau i gefnogi ymarferwyr sy'n gweithio gyda dysgwyr ar ddechrau'r continwwm dysgu
- fframwaith cwricwlwm ac asesu i'w fabwysiadu gan leoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir
- canllawiau ar ddatblygu cwricwlwm ar gyfer y rhai sy'n gyfrifol am addysg heblaw yn yr ysgol
- canllawiau ar gyfer Iaith Arwyddion Prydain.

Mae'r cam adborth hwn yn croesawu eich barn ar ganllawiau ychwanegol Cwricwlwm i Gymru ar gyfer i ymarferwyr sy'n gweithio gyda dysgwyr ar ddechrau'r continwwm dysgu.

Datblygwyd y canllawiau drafft gan ymarferwyr drwy broses o gyd-adeiladu sydd wedi'i gefnogi gan arbenigwyr eraill. Mae'r cyfnod adborth hwn yn rhan o'r broses gyd-adeiladu. Mae'n rhoi cyfle i'r holl ymarferwyr a rhanddeiliaid eraill gyfrannu a chefnogi datblygiad y canllawiau ymhellach.

Bydd y cyfnod adborth yn dod i ben ar 16 Gorffennaf 2021, ac ar ôl hynny bydd yr holl ymatebion yn cael eu hystyried a'u dadansoddi'n annibynnol, yn ogystal â chan ymarferwyr ac eraill yn y gweithgorau. Yna caiff y canllawiau drafft eu mireinio mewn ymateb i adborth a byddant yn rhan o ddiweddariad i fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn hydref 2021, i'w defnyddio gan ysgolion a lleoliadau wrth gynllunio, dylunio a gweithredu'r cwricwlwm.

Sut i ymateb

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **16 Gorffennaf 2021** fan hwyraf.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru ar gael ar:
<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru>

Mae fersiwn hawdd ei ddarllen ar gael ar:
<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cwricwlwm-newydd-yng-nghymru-hawdd-ei-ddeall/>

Mae canllaw ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd ar gael ar:
<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cwricwlwm-newydd-yng-nghymru-canllaw-ar-gyfer-plant-pobl-ifanc-a-theuluoedd/>

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgyngoriadau

Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Uned Gwireddu'r Cwricwlwm
Is-adran Cwricwlwm ac Asesu
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: cwricwlwmigymru@llyw.cymru



@LIC_Addysg



Facebook/AddysgCymru

Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgwymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan contract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:
Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ
e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Cynnwys

1	Cyflwyniad	2
2	Beth sydd yn y canllawiau hyn?	2
3	Y tair elfen	2
3.1	Rôl yr Oedolyn	3
3.2	Rôl Profiadau	4
3.3	Rôl yr Amgylchedd	5
4	Prif nodweddion addysgeg lwyddiannus	5
4.1	Chwarae, a dysgu drwy chwarae	6
4.2	Bod y tu allan	6
4.3	Arsylwi	7
4.4	Dysgu pwrpasol drwy sefyllfaoedd bywyd go iawn	7
5	Datblygiad plant a dylunio cwricwlwm	7
	Tabl diffiniadau	9

1. Cyflwyniad

Datblygwyd canllawiau Agor Llwybrau ('y canllawiau hyn') i helpu ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau i gynllunio, dylunio a gweithredu cwricwlwm priodol i ddysgwyr yn ystod y cyfnod dysgu sy'n arwain at gam cynnydd 1 ('y cyfnod dysgu hwn').

Mae'r canllawiau hyn yn rhan o fframwaith Cwricwlwm i Gymru, a ddatblygwyd i fod yn [gynhwysol i bawb](#). Maent yn amlinellu dechrau taith ddysgu, a gall ymarferwyr ddefnyddio'r cyfan neu gyfeirio at elfennau penodol fel y bo'n briodol.

Mae gwerth amlwg i'r cyfnod dysgu hwn. Mae'n darparu'r sylfaen gadarn sydd ei hangen ar bob dysgwr er mwyn datblygu, yn eu hamser eu hunain, tuag at wireddu [pedwar diben](#) y cwricwlwm, sef tyfu'n:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau
- gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

2. Beth sydd yn y canllawiau hyn?

Mae'r canllawiau hyn yn canolbwyntio ar y prif egwyddorion sy'n hollbwysig ar gyfer dysgu holistaidd ac ystyrlon yn y cyfnod hwn. Mae tair elfen hanfodol er mwyn galluogi hyn, sef oedolion, profiadau a'r amgylchedd. Mae'r elfennau hyn yn gysylltiedig â'i gilydd ac yn dibynnu ar ei gilydd, ac mae'r rhyngweithio rhwng y naill a'r llall yn allweddol i'r prosesau addysgu a dysgu ar draws Cwricwlwm i Gymru. Wrth ddylunio cwricwlwm, bydd angen gofalu bod y tair elfen yn cynnig cyfleoedd cyson ar gyfer y canlynol, sy'n nodweddion hollbwysig mewn addysgeg lwyddiannus:

- chwarae, a dysgu drwy chwarae
- bod y tu allan
- arsylwi
- dysgu pwrpasol drwy sefyllfaoedd bywyd go iawn.

Mae dealltwriaeth o ddatblygiad plant hefyd yn hanfodol wrth gynllunio, dylunio a gweithredu cwricwlwm priodol, ac mae'r canllawiau hyn yn archwilio ymhellach i sut y dylid defnyddio'r ddealltwriaeth hon i hwyluso cynnydd ymhlith dysgwyr.

3. Y tair elfen

Bydd yr elfennau a ddisgrifir yn y canllawiau hyn yno i gefnogi pob plentyn yn ystod y cyfnod dysgu hwn. Bydd y canllawiau hefyd o fudd i ymarferwyr sy'n gweithio gyda dysgwyr ag ADY, gan helpu gydag un neu fwy o agweddau ar eu datblygiad.

Dylai ymarferwyr mewn ysgolion a lleoliadau ddefnyddio'r canllawiau hyn i ymchwilio i'r 'sut' a'r 'pam' wrth ddylunio cwricwlwm ar gyfer y cyfnod dysgu hwn. Dylent ganolbwyntio'n benodol ar ansawdd ac effaith y rhyngweithio rhwng y tair elfen allweddol er mwyn ysbrydoli a herio plant a phobl ifanc wrth iddynt ddysgu.

3.1 Rôl yr Oedolyn

Mae rôl yr oedolyn yn rhan annatod o gynnydd pob dysgwr, ond mae'n arbennig o bwysig yn ystod y cyfnod dysgu hwn. Yr oedolyn sy'n gosod y disgwyliad o ran dysgu drwy greu amgylchedd sy'n ddiogel yn emosiynol, gan gefnogi dysgwyr i ddechrau mynegi a rheoli eu teimladau a'u hymddygiad mewn ffordd positif. Bydd yr oedolyn yn gyson o ran gofal, ac yn arddangos empathi a charedigrwydd. Bydd yn helpu dysgwyr i ymdopi ag ansicrwydd a newid, gan eu paratoi i ddelio â chyfnodau pontio a newidiadau yn eu harferion dyddiol.

Er mwyn dyfnhau dealltwriaeth o anghenion dysgwyr o ran eu datblygiad, mae'n hanfodol bod yr oedolyn yn arsylwi, yn sylwi ac yn ymateb yn sensitif i'r dysgwyr hynny. Dylai wneud penderfyniadau ynghylch pryd a sut i ymyrryd i helpu dysgwyr yn eu dealltwriaeth. Dylai annog a chefnogi dysgwyr i ddechrau cydweithio i ddatrys problemau.

Bydd yr oedolyn yn helpu ac yn cefnogi dysgwyr i ddechrau sylweddoli bod eraill yn gallu meddwl a theimlo mewn ffordd sy'n wahanol iddyn nhw. Bydd yn ymateb i ddi-ddordebau'r dysgwyr, yr hyn y maen nhw'n ei hoffi ac nad ydyn nhw'n ei hoffi, ac yn parchu eu dewisiadau, gan eu cefnogi i fynegi eu safbwyntiau a gwneud penderfyniadau.

Bydd yr oedolyn yn helpu i greu cysylltiadau cryf rhwng cartref y dysgwr a'r gymuned ehangach, gan gryfhau ymwybyddiaeth y dysgwyr o berthyn, drwy groesawu'r cyfle i drafod eu profiadau yn y gorffennol a'i sefyllfa bresennol. Bydd yn gwerthfawrogi ac yn parchu pwysigrwydd cynnwys pawb ynghyd â hunaniaeth dysgwyr o fewn y gymdeithas a'r Gymru amlddiwylliannol ehangach, gan hyrwyddo hunaniaeth unigryw yr iaith Gymraeg, a diwylliant a threftadaeth Cymru. Bydd yr oedolyn yn annog dysgwyr i ddechrau gwneud cysylltiadau rhwng un iaith a'r llall, gan gynnwys Cymraeg a Saesneg, yn ogystal â rhwng dulliau eraill o gyfathrebu.

Bydd yr oedolyn yn un sy'n ymateb, gan ddod o hyd i donfedd gyfathrebu'r dysgwyr a dehongli sut maent yn cyfathrebu drwy'r hyn y maent yn ei wneud, yn ei ddweud a sut maent yn ymddwyn, gan ymateb yn sensitif i hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth. Bydd yn datblygu hyder y dysgwyr i gyfathrebu ag eraill drwy werthfawrogi eu hymdrechion i fynegi eu safbwyntiau, eu teimladau, eu syniadau a'u barn. Bydd yn dangos dealltwriaeth bod dysgu cyfathrebu yn broses wahanol ar gyfer pob unigolyn, a bod dysgwyr yn meithrin a datblygu sgiliau yn eu hamser eu hunain.

Bydd yr oedolyn yn creu amgylchedd sy'n [llawn cyfathrebu](#), gan foddelu nifer o ddulliau i'r dysgwyr fynegi eu hunain. Bydd yn ychwanegu at ddealltwriaeth y dysgwyr drwy ryngweithio medrus, gan ehangu ar yr wybodaeth sydd eisoes ganddynt i'w cefnogi a'u hannog i wneud cysylltiadau â phobl, lleoedd a phethau. Bydd yn arddangos sut i ddefnyddio iaith a chysyniadau mewn ffordd briodol yn eu cyd-destun penodol.

Mae'n hanfodol bod yr oedolyn yn creu cysylltiadau trawsgwricwlaidd effeithiol er mwyn sicrhau darpariaeth eang a chytbwys, gan dynnu ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol y dysgwyr. Bydd yn mireinio'r gwaith cynllunio er mwyn cynnal ansawdd y ddarpariaeth, gan ei haddasu'n rheolaidd yn unol ag anghenion pob dysgwr.

Bydd yr oedolyn yn arddangos ei fwynhad ei hun o'r broses ddysgu, gan ddefnyddio chwilfrydedd y dysgwyr fel [cyfleoedd dysgu digymell](#). Bydd hyn yn helpu dysgwyr i ddatblygu eu gallu i oresgyn problemau yn ogystal â datblygu eu hannibyniaeth a'u hyder drwy eu hannog i gymryd risgiau pan fo'n werth eu cymryd, a rhoi her iddyn nhw'u hunain.

3.2 Rôl Profiadau

Dylai profiadau wneud dysgwyr yn fwy annibynnol, gan gynnig her a chyfle i lwyddo ar hyd eu taith ddysgu. Dylent gynnig cyfleoedd i gyfrannu'n ddwys mewn gweithgareddau a chyfleoedd dysgu ymarferol heb i unrhyw beth dorri ar eu traws, a dylent fod yn seiliedig ar sefyllfaoedd bywyd go iawn.

Gall profiadau gynnwys dewisiadau'r dysgwyr eu hunain neu gallant ddeillio o ddiddordebau lleol neu gyfoes. Dylent gefnogi datblygiad plentyn yn holistaidd, gan helpu dysgwyr i wneud cysylltiadau rhwng y meysydd dysgu a phrofiad ac ar draws y cwricwlwm, gan eu galluogi i symud i gyfeiriad y disgrifiadau dysgu yng nghanam cynnydd 1. Wrth wireddu'r cwricwlwm, gall ymarferwyr dynnu ar y disgrifiadau dysgu hyn i lywio eu gwaith cynllunio gan helpu i sicrhau ystod eang o ddysgu mewn perthynas â datblygiad plentyn.

Mae profiadau yn hanfodol er mwyn cefnogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu. Mae dysgwyr angen profiadau sy'n eu helpu i feithrin cadernid emosiynol, a dylent gael amser a chymorth i gydnabod eu teimladau nhw'u hunain a theimladau pobl eraill. Dylid cynllunio'r profiadau hyn yn ofalus er mwyn datblygu sgiliau talu sylw a gwrando'r dysgwyr mewn amrywiol gyd-destunau, dan do ac yn yr awyr agored.

Bydd profiadau yn helpu dysgwyr i sylwi ar a datblygu eu dealltwriaeth o [gynrychioli drwy symbolau](#), a'u helpu i weld bod ystyr iddynt. Dylai fod yna gyfleoedd i ddysgwyr arbrofi gydag ystod o offer a deunyddiau i wneud marciau mewn pob math o gyd-destunau, wrth iddynt ddechrau cysylltu eu marciau ag ystyron. Mae angen profiadau ymarferol ar ddysgwyr sy'n eu hannog i ddefnyddio geirfa fathemategol syml wrth ymchwilio i nifer a rhif, a siâp a phatrwm. Dylai profiadau gefnogi datblygiad gwybyddol y dysgwyr, er enghraifft, rhoi cyfleoedd i gymharu, didoli a chategoreiddio pethau byw a phethau anfyw. Mae angen cyfleoedd ar ddysgwyr i archwilio technoleg ddigidol ac arbrofi â hi at ddibenion o bob math.

Dylai pob dysgwr gael profiadau sy'n eu hannog i fwynhau gweithgarwch corfforol. Mae angen i ystod eang o brofiadau corfforol fod ar gael iddynt yn rheolaidd, y tu mewn a'r tu allan, gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfarpar ac adnoddau. Dylent gael profiadau sy'n eu galluogi i ddefnyddio ystod eang o adnoddau a chyfarpar, a hynny gyda rheolaeth gynyddol.

Bydd y profiadau hyn yn helpu dysgwyr i ddatblygu ymwybyddiaeth o'u cyrff ac o'u gallu i gydsymud, eu cryfder craidd a'u cydbwysedd, yn ogystal â sgiliau motor bras a manwl. Byddant yn helpu dysgwyr i asesu a rheoli risg, gan eu galluogi i feddwl, ystyried a gwneud penderfyniadau ynghylch eu symudiadau a'u gweithredoedd.

Dylai profiadau adlewyrchu a dathlu natur ddwyieithog Cymru ac amrywiaeth diwylliant Cymru. Dylai'r dysgwyr gael profiad eang o straeon, cerddi, caneuon a rhigymau. Dylid cynnig profiad o wahanol ieithoedd a diwylliannau mewn ffyrdd sensitif ac ystyrlon sy'n rhoi pwrpas i'r dysgu. Gall y profiadau hyn helpu'r dysgwyr i ddatblygu ac ehangu eu dealltwriaeth o'r cyfoeth a'r amrywiaeth sydd yng Nghymru, o'r gorffennol hyd heddiw.

Dylai profiadau ddarparu cyfleoedd i ddefnyddio'r holl synhwyrau wrth ymateb i greadigrwydd eraill, mewn ffordd sy'n ysbrydoli'r dysgwyr, a'u helpu i gyfathrebu a mynegi eu hunain yn greadigol. Dylent fod yn gyfleoedd i greu ystod o ddeunyddiau â nodweddion gwahanol, a dewis o'u plith, ac i annog dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau o ran creadigrwydd a'u gallu i feddwl yn feirniadol a datrys problemau.

Gall profiadau helpu dysgwyr i ddarganfod amgylcheddau sydd wedi'u cynhyrchu gan bobl, amgylcheddau digidol ac amgylcheddau naturiol, ac i ddatblygu eu gwerthfawrogiad o'r byd o'u cwmpas a'r angen i ofalu amdano. Gall profiadau gefnogi dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o sut mae pethau'n gweithio, cymryd camau i ddatrys problemau a datblygu ymwybyddiaeth o achos ac effaith. Dylai dysgwyr allu ymchwilio i sut maen nhw eu hunain a sut mae gwrthrychau yn symud o gwmpas mewn gofod, a dylent glywed iaith sy'n disgrifio a chyfarwyddo'r broses o symud. Dylai profiadau annog dysgwyr i sylwi ar yr amgylchedd sy'n union o'u cwmpas ac yn lleol, gan gynnwys ffenomenau naturiol. Dylai profiadau annog dysgwyr i ystyried rhain, a siarad amdanynt.

3.3 Rôl yr Amgylchedd

Dylai'r amgylchedd, dan do ac yn yr awyr agored, fod yn ganolog i brofiadau bywyd go iawn dysgwyr. Yn ystod y cyfnod dysgu hwn, mae archwilio'r amgylchedd yn allweddol i'w datblygiad. Drwy archwilio eu hamgylchedd, yn y gymuned leol a thu hwnt, bydd y dysgwyr yn dechrau datblygu ymwybyddiaeth o berthyn a gwerthfawrogiad o'r byd o'u cwmpas.

Wrth wireddu'r cwricwlwm, dylai ymarferwyr ystyried nid yr ardaloedd ffisegol yn unig, ond hefyd yr hinsawdd emosiynol sy'n cefnogi dysgwyr i gyflawni eu potensial. Bydd yr amgylcheddau hyn yn darparu ar gyfer profiadau eang ac amrywiol sy'n caniatáu i ddysgwyr fynegi eu hunain yn gorfforol, yn greadigol ac â dychymyg, ac yn caniatáu iddynt ddilyn eu diddordebau, yn annibynnol neu gydag eraill.

Dylai amgylcheddau ddathlu amrywiaeth a rhoi gwerth arno, a dylent fod yn gynhwysol. Dylent fod yn llawn cyfathrebu ac yn canolbwyntio ar hyrwyddo sgiliau cyfathrebu cychwynnol gan eu datblygu ymhellach, gan sicrhau bod ystod eang o adnoddau ar gael i ddysgwyr er mwyn ehangu eu geirfa a hwyluso'r broses o [ddatblygu cysyniadau](#). Bydd yr amgylchedd yn sgaffald i ddatblygu dealltwriaeth dysgwyr o gysyniadau mathemategol, er enghraifft drwy gyfleoedd gweledol ac ymarferol i ddysgwyr gael profiad o rifau, siapiau a phatrymau mewn cyd-destunau bywyd go iawn, y tu mewn a'r tu allan. Wrth ddarparu amgylchedd, dylid cynnwys cyfryngau digidol ac ystod o adnoddau eraill i wella'r broses ddysgu mewn ffyrdd sy'n briodol o ran datblygiad dysgwyr.

Dylai'r amgylchedd gynnig cyfleoedd i ddysgwyr gael profiad o ryfeddu; dylai danio chwilfrydedd ynghylch elfennau byw ac elfennau anfyw, gan ysgogi'r dysgwyr i ymchwilio, datrys problemau, a datblygu eu sgiliau creadigol a'u gallu i feddwl yn feirniadol. Dylai'r amgylchedd hefyd gynnig amser a lle i ystyried, yn ogystal â chyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu sgiliau motor bras a manwl, wrth iddynt herio eu hunain yn gorfforol.

Dylai'r amgylchedd gynnig hyblygrwydd ac amrywiaeth, risg a her, a dylai gefnogi dysgwyr i ddatblygu'r gallu i oresgyn problemau yn ogystal â datblygu eu hyder a'u hannibyniaeth. Bydd yr amgylchedd hefyd yn cefnogi meistrolaeth. Bydd yn gwneud hyn drwy ganiatáu cyfleoedd aml ac estynedig i ymarfer, ailadrodd a sefydlu sgiliau a ddysgwyd mewn amrwyiaeth o gyd-destunau.

4. Prif nodweddion addysgeg lwyddiannus

Mae [addysgeg](#) effeithiol, sy'n rhoi'r lle canolog i'r dysgwr yn allweddol i weithredu Cwricwlwm i Gymru. Mae'r addysgeg hon yn un sy'n ymateb, yn ddeinamig ac wedi'i gwreiddio mewn cydberthnasau cryf. Bydd addysgeg yn llwyddiannus, a dysgwyr yn cael

cefnogaeth i ddatblygu, pan fydd y tair elfen a nodwyd yn cynnig cyfleoedd cyson ar gyfer y canlynol:

4.1 Chwarae, a dysgu drwy chwarae

Mae chwarae yn hawl sylfaenol sydd gan bob dysgwr, fel y nodir yn Erthygl 31 o [Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn](#). Mae gan blant awydd cryf i chwarae. Drwy chwarae, a phrofiadau ym ymwneud â chwarae, gall plant ddarganfod gwahanol ffyrdd o brofi ystod o emosiynau gan ddysgu am y byd y maent yn ei rannu ag eraill.

I bob dysgwr, ond yn enwedig yn y cyfnod dysgu hwn, mae chwarae yn rhywbeth maent yn aml yn ei gymryd o ddifri. Mae angen canolbwyntio a thalu sylw i fanylion, ac mae'n gyfrwng i blant ddysgu drwy ddyfalbarhau a chydweithio. Mae chwarae nid yn unig yn hanfodol i'r ffordd y mae plant yn datblygu eu hymwybyddiaeth ohonyn nhw'u hunain a'r ffordd y maent yn dysgu rheolau ymddygiad cymdeithasol, mae hefyd yn sylfaenol i'r broses o ddatblygu'n gorfforol, yn ddeallusol ac yn greadigol.

Mae chwarae yn broses ddilys i blant o bob oedran. Bydd capasiti plant i ddatblygu mewn ffordd bositif yn cael ei lesteirio os cyfyngir ar yr ystod eang o amgylcheddau, a'r cyfleoedd chwarae, sydd ar gael iddynt. Mae hawl gan bob plentyn i barch o ran y cyfuniad unigryw o rinweddau a sgiliau sydd ganddynt. Mae chwarae yn darparu cyfleoedd lawer i ddatblygu sgiliau, mae'n dylanwadu ar ffordd o feddwl ac agweddau at ddysgu, ac mae'n meithrin ymdeimlad o hunan-werth a hunan-gred sy'n effeithio ar hyder ac annibyniaeth.

Mae chwarae, a dysgu drwy chwarae, yn cefnogi datblygiad holistaidd ar draws y cwricwlwm. Dylai pob ymarferwr roi gwerth arno fel diben ynddo'i hun yn ogystal ag fel rhywbeth y dylid talu sylw manwl iddo gyda'r nod clir o'i ddefnyddio i wella'r broses ddysgu.

4.2 Bod yn yr awyr agored

Mae bod yn yr awyr agored yn arbennig o bwysig i ddysgwyr yn y cyfnod hwn o ddysgu. Mae'n cefnogi datblygiad a lles cymdeithasol, emosiynol, ysbrydol a chorfforol. Dylai'r rhan fwyaf o'r dysgu ddigwydd yn yr awyr agored.

Mae'r awyr agored yn darparu cyfleoedd i ysbrydoli rhyfeddod, ac mae'n caniatáu i ddysgwyr fod yn nhw eu hunain mewn gofod agored, ymlaciol sy'n eu hysgogi. Mae'r awyr agored yn darparu cyfleoedd cyfoethog yng nghyd-destun bywyd go iawn i ysgogi synhwyrau dysgwyr drwy'r hyn y maent yn ei glywed, ei gyffwrdd, ei weld a'i arogl.

Gall dysgu yn yr awyr agored arwain at lefelau uchel o fodlonrwydd, hyder ac ymgysylltu. Mae bod y tu allan yn gyfle i ddysgwyr archwilio, ymarfer a gwella eu sgiliau. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr awyr agored, mae angen oedolion sy'n deall ei bwysigrwydd a'i werth i ddysgwyr.

Gall dysgwyr sy'n llwyddo i ymgysylltu â'r byd naturiol feithrin empathi tuag at yr amgylchedd, gan ddangos ymwybyddiaeth o effaith bosibl y dysgwyr ar elfennau byw. Gallant ddechrau archwilio'n ymarferol y cysyniad o gynaladwyedd. Mae archwilio'r byd y tu allan yn gyfle i ddysgwyr ddatblygu ymwybyddiaeth o'u lle a'u perthynas nhw â'u hardal, eu bro ehangach, Cymru a'r byd.

Mae maint y byd awyr agored yn ei gwneud yn bosibl i ddysgwyr ddatblygu ymwybyddiaeth ohonyn nhw eu hunain o fewn gofod, gan eu helpu i ddeall y syniad o [bropriodderbyniaeth](#). Mae cyfleoedd unigryw yn yr awyr agored i ddysgwyr wella eu cydbwysedd a'u gallu i gydsymud, datblygu [sgiliau motor](#) ac archwilio eu gallu corfforol. Wrth archwilio'r awyr agored, gallant ddatblygu eu hyder a'u gallu i asesu a phrofi risg, ynghyd â datblygu eu gallu i oresgyn problemau.

Mae amgylchedd awyr agored cyfoethog ac amrywiol yn caniatáu cyfleoedd bywyd go iawn i ddatblygu [sgiliau hanfodol](#). Mae defnyddio adnoddau naturiol penagored yn hyrwyddo datblygiad dychymyg, creadigrwydd a chwilfrydedd.

4.3 Arsylwi

Dylai arsylwi fod yn rhan allweddol o drefniadau bob dydd ymarferwyr. Drwyddo, cânt ddealltwriaeth well o anghenion, sgiliau a chynnydd dysgwyr. Mae'n caniatáu i ymarferwyr nodi'r dulliau dysgu sydd orau gan blant a phobl ifanc, a sut orau i'w hysgogi i gymryd rhan yn y broses ddysgu. Mae'n ffordd o weld hefyd pa ddysgwyr y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt i gyflawni eu potensial.

Mae arsylwi effeithiol yn galluogi ymarferwyr i gynllunio darpariaeth briodol sy'n helpu dysgwyr i ymwneud â'r broses ddysgu a'i mwynhau, yn ogystal â chynllunio i'w cefnogi i symud ymlaen i'r cam dysgu nesaf.

4.4 Dysgu pwrpasol drwy sefyllfaoedd bywyd go iawn

Mae plant a phobl ifanc yn dysgu'n dda pan fyddant yn cymryd rhan weithredol mewn profiadau sy'n ysgogi eu diddordeb, tanio eu dychymyg, ysbrydoli eu chwilfrydedd a hyrwyddo agweddau positif. Dylai'r profiadau hyn annog dysgwyr i ymchwilio, archwilio, creu a chymryd rhan weithredol yn y broses ddysgu. Bydd profiadau perthnasol ac ystyrion sy'n seiliedig ar gyd-destunau bywyd go iawn yn galluogi dysgwyr i wneud cysylltiadau, cymhwysu gwybodaeth ac atgyfnerthu eu sgiliau.

Gall profiadau bywyd go iawn ysgogi dysgwyr i ddangos arweiniad wrth ofyn cwestiynau, nodi problemau, cymryd risgiau a dod o hyd i atebion. Mae'n bwysig creu cyfleoedd i ddysgwyr gymhwyso'r hyn y maent yn ei ddysgu i sefyllfaoedd bywyd go iawn. Mae hyn yn eu helpu i ddeall pwrpas eu dysgu, a gall gynyddu eu lefelau bodlonrwydd, eu hunan-gred a'u gallu i oresgyn problemau. Mae'n eu hannog i archwilio a bod yn greadigol, a bydd yn eu cefnogi i ddatblygu dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas.

5. Datblygiad plant a dylunio cwricwlwm

Mae cynnydd yn ganolog i'r gwaith o ddylunio cwricwlwm. Mae gan yr holl ddysgwyr yng Nghymru yr hawl i gael eu werthfawrogi a'u gwir gefnogi i wneud cynnydd ar hyd eu taith ddysgu drwy brofiadau sy'n bwysig ac yn ystyrion iddynt hwy. Dylai'r daith hon fodloni anghenion yr unigolyn, a dylai ddiwydd ar gyflymder sy'n addas i bob dysgwr unigol.

Er mwyn cwmpasu pob dysgwr, beth bynnag yw'r oedran, cefndir, angenion neu allu, dylai ymarferwyr ystyried cynnydd o safbwynt holistaidd drwy ddefnyddio egwyddorion datblygiad plant wrth gynllunio, dylunio a gweithredu'r cwricwlwm.

Drwy ddilyn cwricwlwm sydd wedi'i gynllunio'n dda ac sy'n gwahaniaethu rhwng anghenion grwpiau dysgwyr, a hwnnw'n gwricwlwm sy'n cwmpasu'r pedwar diben, caiff dysgwyr eu

grymuso i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddysgu'n llwyddiannus a gwireddu'r pedwar diben. Gyda chefnogaeth fedrus a sensitif y rhai sy'n eu nabod yn dda, bydd diddordeb dysgwyr yn eu haddysg yn fwy, a byddant yn datblygu'n unigolion mwy galluog ac annibynnol, yn barod i gyfrannu yn y byd o'u cwmpas. Byddant yn iachach ac yn fwy hyderus i ryngweithio ag ystod amrywiol o bobl, lleoedd a phrofiadau. Bydd hyn yn baratoad da ar gyfer cam nesaf eu taith ddysgu. Dros gyfnod, ar eu lefel eu hunain ac yn eu hamser eu hunain, bydd y dysgwyr yn meithrin perthynas ag eraill, yn datblygu sgiliau bywyd ac yn magu diddordebau personol a fydd yn eu galluogi i gyflawni eu potensial.

Dylai ymarferwyr ymchwilio i'r hyn sy'n cymell dysgwyr, eu dyheadau a'u diddordebau er mwyn datblygu dealltwriaeth o anghenion pob unigolyn, gan ymgorffori llais y dysgwr yn y broses gynllunio. Gall [canolbwyntio ar y dysgwr](#), a chydweithio â theuluoedd a [phartneriaid eraill](#) sydd ynghlwm wrth gynnydd y dysgwr, helpu i sicrhau datblygiad holistaidd.

Wrth ddylunio'r cwricwlwm, dylid canolbwyntio ar alluogi dysgwyr i lywio'u cwrs drwy amrywiaeth eang o brofiadau cyfarwydd ac anghyfarwydd, mireinio sgiliau a'u rhoi ar waith, ac ehangu a dyfnhau gwybodaeth. Gall hyn ganiatáu i ddysgwyr wneud cysylltiadau a throsglwyddo'r hyn a ddysgant i gyd-destunau newydd. Dylai'r dysgu a'r addysgu roi sylw i elfennau datblygiad plant: y corfforol, y cymdeithasol, yr emosiynol, cyfathrebu a datblygiad gwybyddol. Mae'r rhain yn bwysig i bob dysgwr iau ac i'r dysgwyr ADY hynny a allai fod â phroffiliau amrywiol o ran datblygiad.

Bydd pob dysgwr yn ennill sgiliau a gwybodaeth yn ei amser ei hun, a bydd yn wahanol ym mhob achos. Bydd pa mor gyflym y mae'n gwneud hyn yn amrywio o fewn ei lwybr cynnydd ei hun hyd yn oed. Dylai ymarferwyr ddefnyddio cyfleoedd arsylwi a gwybodaeth am ddatblygiad plant i gynllunio profiadau dysgu sy'n cefnogi ac yn herio pob dysgwr i ddatblygu tuag at wireddu'r pedwar diben. Wrth i ddysgwyr gyrraedd [cerrig milltir](#) o fewn y meysydd datblygiad hyn, dylent dyfu'n fwy soffistigedig yn eu gallu i [hunanystyried](#) a [hunanreoli](#), a datblygu meistrolaeth fwy ar draws ystod ehangach o sgiliau. Dylai eu gwybodaeth gynyddu a dyfnhau, a dylent dyfu'n fwy abl i ddefnyddio'r hyn y maent wedi'i ddysgu a'i roi ar waith. O ganlyniad, dylent ddechrau gwneud cysylltiadau ar draws y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig o fewn pob maes dysgu a phrofiad.

Tabl diffiniadau

Llawn cyfathrebu	Mae amgylchedd llawn cyfathrebu yn cefnogi sgiliau siarad a gwranddo, lles emosiynol, ymgysylltu corfforol ac ymgysylltu cyffredinol.
Cyfleoedd dysgu digymell	Digwyddiadau neu brofiadau annisgwyl neu heb eu cynllunio sy'n cynnig cyfle i ddysgu. Maent yn darparu cyd-destunau ystyrlon i oedolion gyflwyno neu ehangu ar rywbeth sydd o ddiddordeb neu'n destun chwilfrydedd i'r dysgwr.
Cynrychioli drwy symbolau	Y gallu i gyfleu syniadau drwy ddefnyddio geiriau, synau a gwrthrychau wrth chwarae.
Datblygu cysyniadau	Proses sy'n gysylltiedig â datblygiad iaith, sy'n cefnogi dysgwyr i ddeall cyfeiriad, lleoliad, safle, rhif, nifer, dilyniant patrwm, nodweddion, dimensiwn, maint, ac elfennau sy'n debyg ac sy'n wahanol.
Propriodderbyniaeth	Dirnadaeth neu ymwybyddiaeth o safle'r corff a sut mae'n symud.
Sgiliau motor	Y gallu i ddysgu neu i arddangos rheolaeth effeithlon o ystumiau corfforol gwirfoddol a phatrymau symud.
Canolbwyntio ar y dysgwr	Rhoi'r lle canolog i'r dysgwr yn y broses ddysgu, a chaniatáu iddo ef/iddi hi gymryd cyfrifoldeb a gwneud dewisiadau o ran beth y bydd yn ei ddysgu. Bydd yr oedolyn yno i hwyluso'r dysgu.
Cerrig milltir	Ymddygiadau neu sgiliau corfforol a welir mewn plentyn wrth iddo dyfu a datblygu yw cerrig milltir datblygiad. Bydd y cerrig milltir yn wahanol i bob ystod oedran. Wrth sôn am norm datblygiad, cyfeirir at gyfartaledd yr ystod oedran pan fydd plentyn yn cyrraedd pob carreg filltir.
Hunanystyried	Hunanystyried yw'r broses o ddatblygu dealltwriaeth y dysgwyr o bwy ydynt, beth yw eu gwerthoedd, a pham y maent yn meddwl, yn teimlo ac yn ymddwyn fel y maent.
Hunanreoli	Mae hunanreoli yn sgil sylfaenol yng nghyfnod plentyndod cynnar. Wrth i ddysgwyr dyfu a chael eu cefnogi gan oedolion, byddant yn dysgu sut i reoli eu hemosiynau a'u hymddygiad.